
Asesiad cystadleuaeth ar gyfer sianel deledu BBC Three

Penderfyniad terfynol

DATGANIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 25 Tachwedd 2021

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Cefndir	3

1. Trosolwg

Mae'r BBC wedi cyflwyno cynnig i ail-lansio BBC Three fel sianel ddarlledu. Mae wedi ymgynghori ac wedi hynny ymgymryd â Phrawf Lles y Cyhoedd ('PIT') ar ei chynlluniau.

Yn unol â gofynion Siarter a Chytundeb y BBC, rydym wedi cyflawni aseiad cystadleuaeth. Rydym wedi adolygu sut mae'r BBC wedi datblygu ei chynigion a'i hasesiad o'u gwerth cyhoeddus, yn ogystal ag asesu effaith cynigion y BBC ar gystadleuaeth. Gwnaethom ymgynghori ar ein penderfyniad dros dro y gallai'r BBC fwrw ymlaen â'r cynlluniau ac rydym wedi ystyried adborth gan randdeiliaid mewn ymateb.

Yn y ddogfen hon rydym yn esbonio ein penderfyniad terfynol y gall y BBC fwrw ymlaen â'i chynnig. Rydym yn nodi barn rhanddeiliaid mewn ymateb i'n hymgyngoriad a sut rydym wedi ystyried y rhain yn ein penderfyniad terfynol. Rydym yn nodi sut y byddwn yn dwyn y BBC i gyfrif am ddarparu'r gwerth cyhoeddus a nodir yn ei gynigion, yn ogystal â gosod amodau yn y Drwydded Weithredu i sicrhau cyfraniad sianel ddarlledu BBC Three at gyflawni'r Genhadaeth a Dibenion Cyhoeddus.

Ar wahân, rydym wedi penderfynu y dylid rhoi isafswm lefel o amlygrwydd i BBC Three ar slot 24 yn y canllaw rhaglenni electronig, ac y dylai darparwyr llwyfannau gael 18 mis i weithredu'r newid.

Ein penderfyniadau

Rydym wedi penderfynu y gall y BBC fwrw ymlaen â'i chynlluniau i ail-lansio BBC Three fel sianel deledu ddarlledu. Ein casgliad yw bod gwerth cyhoeddus y cynnig i ail-lansio BBC Three yn cyfiawnhau'r effaith ar y farchnad yr ydym wedi'i nodi, ac felly gall y BBC fwrw ymlaen. Wrth ddod i'n casgliadau terfynol, rydym wedi arfer ein barn ac ystyried y dystiolaeth sydd ar gael o brawf lles y cyhoedd y BBC, ein gwybodaeth a'n dadansoddiad ein hunain, a thystiolaeth berthnasol a ddarparwyd gan randdeiliaid.

Credwn y gallai'r cynigion ddarparu gwerth cyhoeddus ychwanegol i gynulleidfa allweddol. Mae'r cynigion hyn wedi'u dylunio i gyrraedd cynulleidfa a danwasanaethir gan y BBC ar hyn o bryd. Er bod cynulleidfa darged y sianel arfaethedig yn gymharol fach, credwn ei bod yn un arbennig o bwysig. Bydd y sianel newydd yn cynnig mwy o fynediad i gynulleidfa oedd ar deledu llinol i gynnwys BBC Three, gan gynnwys cyfran uchel o gynnwys gwreiddiol gyda ffocws ar y DU ar draws ystod o genres gan gynnwys newyddion, materion cyfoes a chynnwys ffeithiol, yn ogystal â drama, adloniant a chomedi.

Ein barn ni yw bod yr effaith ar ddarlledwyr eraill yn debygol o fod yn gymharol fach. Gallai fod uchafswm effaith o lai nag 1% o gyfanswm refeniw hysbysebu yn 2022 ar gyfer ITV a Channel 4, a 0.4% o gyfanswm refeniw hysbysebu cyfunol pob darlledwr masnachol arall. O ystyried yr effaith gyffredinol gymharol fach ar refeniw darlledwyr teledu masnachol, nid ydym o'r farn bod cynnig y BBC yn debygol o effeithio'n arwyddocaol ar gymhelliant i ddarlledwyr masnachol fuddsoddi ac arloesi neu effeithio ar y dewis o wasanaethau a gynigir i gynulleidfa oedd. Rydym yn cydnabod bod colled bosib cynulleidfa oedd iau yn debygol o effeithio ar ddarlledwyr masnachol, gan fod cynulleidfa oedd iau yn cynrychioli demograffig targed allweddol. Fodd bynnag, credwn y bydd

darlledwyr â chymhelliad o hyd i fuddsoddi ac arloesi mewn cynnwys ar gyfer y grŵp hwn a byddant yn parhau i gystadlu i gadw cynulleidfaoedd iau.

Byddwn yn dwyn y BBC i'w gynigion drwy newidiadau i'r Drwydded Weithredu a thrwy fonitro ac adrodd yn well. Rydym wedi penderfynu gosod amodau'r Drwydded Weithredu ar sianel newydd BBC Three ar gyfer newyddion, cynnwys a ddarlledir am y tro cyntaf ac i 75% o'r holl oriau darlledu darddu o'r DU. Daw'r amodau hyn i rym pan fydd y BBC yn lansio'r sianel. Rydym hefyd wedi nodi ein disgwyliad y bydd y BBC yn mynegi'n dryloyw yn ei Chynllun Blyneddol nesaf sut y bydd yn cyflawni'r hyn y mae wedi ymrwymo iddo yn y cynigion ac wedyn yn adrodd ar ei berfformiad.

Mae adran drosolwg y ddogfen hon yn grynodeb lefel uchel wedi'i symleiddio'n unig. Mae'r penderfyniadau rydym wedi eu gwneud a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

2. Cefndir

Diben Asesiadau Cystadleuaeth y BBC

- 2.1 Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa trwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, nodedig ac uchel eu hansawdd sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.¹ Rydym yn disgwyl i'r BBC wneud newidiadau i'w wasanaethau i addasu i newidiadau mewn technoleg ac anghenion newidiol cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, fel sefydliad mawr a ariennir gan y cyhoedd, gallai rhai newidiadau y gallai'r BBC efallai yn dymuno eu gwneud gael effaith arwyddocaol ar gystadleuaeth yn y farchnad cyfryngau ehangach.
- 2.2 Gallai'r effaith fod yn gadarnhaol o ran mwyafu'r gwerth i'r cyhoedd ac annog cystadleuaeth trwy gynnig mwy o ddewis, gan symblu galw neu hyrwyddo arloesedd er budd dinasyddion a defnyddwyr y DU. Er hynny, mae'n bosib y gallai rhai newidiadau a gynigir gan y BBC niweidio cystadleuaeth; er enghraifft, trwy dyrru allan buddsoddiad gan drydydd partïon, gan arwain yn y pen draw at ddeilliannau negyddol i gynulleidfaoedd. Oherwydd hyn, mae'r siarter a'r cytundeb, sy'n disgrifio Cenhadaeth a dyletswyddau'r BBC, yn darparu i Ofcom, i ystyried effeithiau newidiadau arwyddocaol i wasanaethau teledu, radio ac ar-lein cyhoeddus y BBC ar gystadleuaeth.
- 2.3 Mae rôl asesiad cystadleuaeth BBC ('BCA') Ofcom yn cynnwys:
- adolygiad o'r gweithdrefnau y mae'r BBC wedi'u dilyn yn ei phrawf lles y cyhoedd (gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon);
 - adolygiad o asesiad y BBC o werth cyhoeddus, gan brofi dadansoddiad y BBC a'r ystod o dystiolaeth y dibynnwyd arni i ddangos y gwerth cyhoeddus ychwanegol y bydd y cynnig yn ei ddarparu uwchlaw ei gwasanaethau presennol;
 - ein hasesiad ein hunain a ba un a fyddai'r newidiadau a fyddai'n deillio o gynnig y BBC yn cael effaith andwyol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, gan gywain tystiolaeth ychwanegol ac ystyried materion a godwyd gan randdeiliaid eraill fel y bo'n briodol; ac
 - asesiad terfynol, yn seiliedig ar ffeithiau penodol yr achos a chan gymryd ein holl ddyletswyddau a rhwymedigaethau perthnasol i ystyriaeth, a ba un a yw gwerth cyhoeddus y cynnig yn cyfiawnhau unrhyw effaith andwyol y gallai ei chael ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.
- 2.4 Ar ddiwedd proses BCA, gallwn gyrraedd un o bedwar penderfyniad posib:
- y gall y BBC symud ymlaen gyda'r cynnig ar y ffurf a gyflwynwyd i ni;
 - na all y BBC symud ymlaen â'r cynnig;

¹ [Siarter Frenhinol a Cytundeb Fframwaith y BBC](#). Cyfeirir at y rhain fel y "Siarter" a'r "Cytundeb".

- c) y gall y cynnig symud ymlaen, yn amodol ar unrhyw amodau neu addasiadau a fynnir gennym ni; neu
- d) bod yn rhaid i'r BBC ailystyried elfennau o'i phrawf lles y cyhoedd, neu ddilyn unrhyw weithdrefnau pellach yr ystyriwn eu bod yn briodol.

Cynigion terfynol y BBC ar gyfer BBC Three

- 2.5 Mae'r BBC yn bwriadu ail-lansio² BBC Three fel sianel deledu ym mis Ionawr 2022 i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd 16-34 oed sy'n gwyllo teledu darlledu ar sail wythnosol ond sy'n ddefnyddwyr ysgafn y BBC yn well. Mae'r BBC yn ystyried bod y gwylwyr hyn yn tueddu i fod o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd C2DE, sy'n byw y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr yn ogystal â'r rhai na allant ffrydio cynnwys yn hawdd.
- 2.6 Yn ogystal â bod yn ddull o ddsbarthu rhaglenni wedi'u hamserlennu i bobl ifanc, credodd y BBC y byddai'n rhoi trosol newydd iddynt "gynyddu ymwybyddiaeth a newid canfyddiadau o'r hyn sydd gan BBC iPlayer (a'r BBC) i'w gynnig" ymysg cynulleidfaoedd ifainc anos eu cyrraedd.³
- 2.7 Cynllun y BBC ar gyfer y sianel yw:
- i) Oriau darlledu 7pm tan 4am bob dydd.
 - ii) Cyllideb cynnwys flynyddol o £72.5m. Nid oes cyllideb ychwanegol ar gyfer sianel ddarlledu arfaethedig BBC Three.⁴
 - iii) Cymysgedd o genres, gan gynnwys ffeithiol, adloniant, drama, materion cyfoes y DU a rhyngwladol, comedi, chwaraeon byw, cerddoriaeth fyw a ffilmiau.
 - iv) Bwletin newyddion i'w ddarlledu bob dydd yn ystod yr wythnos.
 - v) Cynrychiadau gwreiddiol y BBC (h.y. rhaglenni a gomisiynir gan y BBC gan gynnwys darllediadau gwreiddiol ac ailddarllediadau) i gyfrif am 70% o'r oriau darlledu, gyda'r gweddill yn gaffaeliadau.
- 2.8 Fel rhan o'r cynnig, mae'r BBC hefyd wedi nodi'r canlynol:
- i) Bydd BBC Three yn darlledu rhaglennu cyn y trothwy a fydd yn apelio at gynulleidfaoedd 13-15 oed a 16-34 oed.
 - ii) Bydd dau draean o wariant BBC Three ar raglenni y tu allan i Lundain.

² Nodwn fod llawer o ymatebion rhanddeiliaid i ymgynghoriad y BBC yn dadlau bod penderfyniad blaenorol y BBC i gau BBC Three fel sianel ddarlledu, a'r rhesymu a roddwyd gan y BBC ar y pryd, yn golygu na ddylid caniatáu iddi ei ail-lansio. Fodd bynnag, credwn ei bod yn bwysig asesu cynnig y BBC i ail-lansio BBC Three fel sianel ddarlledu yn seiliedig ar resymu ac amcanion y BBC fel yr amlinellir yn ei PIT ac o fewn amgylchiadau presennol y farchnad, ac nid ydym o'r farn bod y penderfyniad blaenorol a wnaed gan Ymddiriedolaeth y BBC yn uniongyrchol berthnasol i'n hystyriaeth a'n dadansoddiad yn y BCA hwn.

³ [Sianel BBC Three newydd: Prawf Lles y Cyhoedd](#), 24 Mehefin 2021 (cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'BBC PIT').

⁴ Yn ei chynllun blynyddol blaenorol ym mis Mai 2020, nododd y BBC, fel rhan o'i strategaeth i ddenu a chadw cynulleidfaoedd iau, y byddai'n buddsoddi 'mwy na dwbl' mewn cynnwys BBC Three erbyn 2022/23. Ym mis Mawrth 2021, fe ail-gadarnhaodd hyn yn ei Chynllun Blynyddol 2021/22.

- 2.9 Mae'r BBC wedi cynnig y dylai sianel newydd BBC Three ymddangos o fewn y 24 slot uchaf o ganllawiau rhaglenni electronig ('EPGs'). Mae'n cynnig y bydd y sianel ar gael ar y prif lwyfannau daearol, lloeren a chebl ym mhob un o wledydd y DU. Mae'r BBC yn bwriadu lansio'r sianel ym mis Ionawr 2022 ym manylder safonol (SD) a manylder uwch (HD) ac eithrio yn Yr Alban lle defnyddir y capasiti HD ar gyfer sianel BBC Scotland ac yng Nghymru lle defnyddir y capasiti HD gan S4C. Ar bob llwyfan arall, byddai'r sianel yn lansio yn SD a HD.
- 2.10 I gynnwys BBC Three o fewn y capasiti dosbarthu presennol mae'r BBC yn bwriadu cyfyngu ar oriau gweithredu CBBC fel bod darllediadau'n dod i ben am 7pm yn lle 9pm.

Prawf Lles y Cyhoedd y BBC

- 2.11 O dan delerau'r Cytundeb, mae'n rhaid i'r BBC asesu p'un a yw unrhyw newid arfaethedig i'w gwasanaeth cyhoeddus yn y DU yn "faterol".⁵ Os bydd yn penderfynu bod newid yn faterol, mae rhwymedigaeth ar y BBC i ymgymryd ag asesiad pellach, sef 'Prawf Lles y Cyhoedd' (PIT), sy'n cael ei adolygu gan Fwrdd y BBC. Mae'r PIT yn broses a ddefnyddir i asesu gwerth cyhoeddus newid a'i effaith ar gystadleuaeth.
- 2.12 Er mwyn bodloni'r meini prawf a nodir mewn PIT, mae'n rhaid i Fwrdd y BBC gael ei fodloni:
- bod y newid arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni Cenhadaeth y BBC a hyrwyddo o leiaf un o'r Dibenion Cyhoeddus;
 - y cymerwyd camau rhesymol i sicrhau na fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith andwyol diangen ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a,
 - bod gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.
- 2.13 Cyhoeddodd y BBC [ymgyngoriad](#) ar ei gynigion ar gyfer sianel ddarledu BBC Three newydd ('ymgyngoriad y BBC') ar 5 Mawrth 2021, gan nodi ei bod yn bwriadu lansio sianel deledu BBC Three newydd ym mis Ionawr 2022 a gofyn am fewnbwn gan randdeiliaid.⁶
- 2.14 Cyhoeddodd y BBC [ganlyniadau ei PIT](#) ar 24 Mehefin 2021 gan nodi ei chynigion yn fanylach ac ymateb i sylwadau rhanddeiliaid ar ei ymgynghoriad. Cadarnhaodd y ddogfen hon farn Bwrdd y BBC "fod y Prawf Lles y Cyhoedd yn amlwg wedi'i fodloni".⁷

⁵ Cytundeb, Cymal 7(5). Fel y nodir gennym yn Atodiad 2, mae'r Cytundeb yn diffinio newid sylweddol fel ymgymryd ag unrhyw weithgaredd fel Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU; ac unrhyw newid i Wasanaeth Cyhoeddus yn y DU a allai gael effaith andwyol arwyddocaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Cymalau 7(6) a 7(7) y Cytundeb.

⁶ Cyhoeddir ymatebion gan randdeiliaid i ymgynghoriad y BBC ar [wefan y BBC](#).

⁷ [Sianel BBC Three newydd: Prawf Lles y Cyhoedd](#), 24 Mehefin 2021, t.7.

Adolygiad Ofcom o'r cynnig

Asesiad Cychwynnol

2.15 Wrth i'r BBC gyhoeddi ei chynnig, dechreuwyd ar asesiad cychwynnol i asesu a oedd cynigion y BBC yn berthnasol ac a ddylem lansio BCA. Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn datgan yn ecblyg y bydd cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus newydd bob amser yn "faterol". Mae lansio BBC Three fel sianel deledu'n ymwneud â gwasanaeth cyhoeddus newydd, ac felly gwnaethom ganfod bod y newid hwn yn faterol. Fel rhan o'r asesiad cychwynnol hwn, ystyriwyd hefyd pa agweddau ar gynnis y BBC a allai gael effaith andwyol ar gystadleuaeth ac roedd angen eu dadansoddi ymhellach. Gwnaethom gyhoeddi [Gwahoddiad i Roi Sylwadau](#) gan wahodd rhanddeiliaid i roi sylwadau ar sut yr oeddent yn credu y gallai lansiad arfaethedig sianel ddarlledu BBC Three newydd effeithio arnynt. Wedi hynny, ar 20 Gorffennaf 2021, gwnaethom gyhoeddi [llythyr at y BBC](#) yn cadarnhau ein bod yn fodlon bod y cynnig yn faterol, a chan ddod i'r casgliad y byddai'n briodol cynnal BCA.

Ymgynghori ar ein penderfyniad dros dro

- 2.16 Ar 16 Medi 2021, gwnaethom gyhoeddi [ymgynghoriad](#) ar ein penderfyniad dros dro bod gwerth cyhoeddus lansiad arfaethedig sianel ddarlledu BBC Three yn cyfiawnhau'r effaith andwyol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol a nodwyd gennym. Felly, daethom i'r casgliad dros dro y gallai'r BBC fwrw ymlaen â'i chynigion.
- 2.17 Canfu ein dadansoddiad y gallai'r cynigion ddarparu gwerth cyhoeddus ychwanegol drwy gynyddu argaeledd a chyrhaeddiad cynnwys BBC Three, gan gynnwys i'r rhai nad ydynt, neu na allant, ei wyllo ar hyn o bryd ar BBC iPlayer. Er i ni dynnu sylw at y ffaith bod cynigion y BBC wedi'u targedu at gynulleidfa benodol, h.y. 16-34 oed, ac yn enwedig y rhai 16-34 oed sy'n gwylio teledu llinol, esboniwyd bod demograffeg yn bwysig i ddyfodol y BBC, a'i hangen am ddarparu i bob cynulleidfa, ac felly roeddem o'r farn y gallai'r cynigion gyfrannu at ei chynladwyedd tymor hwy.
- 2.18 Dangosodd ein dadansoddiad hefyd nad oedd y newidiadau'n debygol o gael effaith andwyol arwyddocaol ar gystadleuaeth. Rhagwelir y bydd BBC Three yn sianel llinol gymharol fach gyda chyfran wyllo a amcangyfrifir (llinol a BVoD)⁸ o hyd at 1.5% yn 2022 ar gyfer yr holl unigolion 4+ oed. Er i ni nodi'r potensial am effaith gymharol fach ar ITV a Channel 4, ac effaith lai ar ddarlledwyr masnachol eraill, gwnaethom ystyried ei bod yn annhebygol o newid eu cymhellion i arloesi neu i fuddsoddi mewn cynnwys newydd yn sylweddol.
- 2.19 Bu i ni groesawu'r dewis cynyddol ar deledu llinol y gallai'r sianel newydd ei gynnis i gynulleidfa oedd, yn enwedig pe bai'n cyflawni nodau'r BBC i wneud mwy dros gynulleidfa oedd iau a danwasanaethir yr oedd wedi'u nodi: cynulleidfa oedd y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr, o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, o grwpiau

⁸ Wrth BVoD rydym yn golygu gwasanaethau Fideo Ar-âl Darlledwyr megis BBC iPlayer, ITV Hub, All4, STV Player a My5.

lleiafrifoedd ethnig a'r rhai sydd â llai o fynediad at wasanaethau ar-alw.⁹ O'r herwydd, daethom i'r casgliad dros dro fod gan y cynigion y potensial i fod yn rhan bwysig o strategaeth gyffredinol y BBC i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd iau.

- 2.20 Wrth gynnal ein hasesiad cystadleuaeth, gwnaethom dynnu ar y dystiolaeth yn PIT y BBC, modelu economaidd y BBC, ymchwil yr oedd wedi'i chomisiynu gan MTM¹⁰ a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolwg ('yr arolwg'), a chrynodeb o sesiynau bwrdd crwn a gynhaliwyd gan y BBC yn ystod y PIT gyda sefydliadau ieuenctid a phobl ifanc. Gwnaethom hefyd ystyried yr ymatebion i ymgynghoriad PIT y BBC a'n hymgyngoriad cychwynol ein hunain.¹¹
- 2.21 Gwnaethom hefyd ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r [Drwydded Weithredu](#) yr oeddem o'r farn y byddai'n briodol eu gosod mewn perthynas â BBC Three yng ngoleuni ein dyletswyddau pe baem yn cymeradwyo'r cynigion yn ein penderfyniad BCA terfynol.¹²
- 2.22 Cawsom 11 o ymatebion i'n hymgyngoriad yr oedd pedwar ohonynt gan unigolion, y gweddill gan sefydliadau. Rydym wedi cyhoeddi pob ymateb nad yw'n gyfrinachol ar ein gwefan.¹³

Ymgynghoriad cysylltiedig ar newidiadau arfaethedig i'r Cod EPG

- 2.23 Ochr yn ochr â'n hymgyngoriad BCA, gwnaethom [ymgyngori ar wahân](#) ar newidiadau arfaethedig i god EPG Ofcom ac amserlen briodol i ddarparwyr EPG weithredu'r newidiadau pe baem yn cymeradwyo cynnig y BBC yn y pen draw i ail-lansio BBC Three. Am y rhesymau a nodir yng ngweddill y datganiad hwn, rydym yn cymeradwyo cynnig y BBC i ail-lansio BBC Three fel sianel deledu ddarlledu. Gan hynny, bydd BBC Three yn sianel ddynodedig o dan ddarpariaethau Deddf Cyfathrebiadau 2003.¹⁴ Am y rhesymau a nodir mewn [datganiad ar wahân](#) yn esbonio ein penderfyniad ar amlygrwydd EPG ar gyfer BBC Three, rydym wedi penderfynu y dylai BBC Three gael isafswm amlygrwydd o slot 24 ac y dylai darparwyr EPG gael 18 mis ar y mwyaf i weithredu hyn.

⁹ BBC PIT, t.10.

¹⁰ [Prawf Lles y Cyhoedd BBC Three: Ymchwil Cynulleidfaoedd](#).

¹¹ Mae'r ymatebion i'n hymgyngoriad ar gael ar ein gwefan: [Datganiad: Adolygiad Ofcom o'r sianel deledu BBC Three arfaethedig](#).

¹² Nodir swyddogaeth Ofcom o osod amodau yn y Drwydded Weithredu yn Siarter y BBC yn Erthygl 46(3).

¹³ Cyhoeddir ymatebion i'r ymgynghoriad yma: [Datganiad: Adolygiad Ofcom o'r sianel deledu BBC Three arfaethedig - Ofcom](#).

¹⁴ Adran 310(2) Deddf Cyfathrebiadau 2003 ('y Ddeddf').